

DOLEN Y TAB – 14 24–25 Gorffennaf 2020

DYDD SUL 26 Gorffennaf **Oedfa'r Tabernacl**

yng ngofal Heulyn Rees a chriw'r Twmiaid

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

gyda'r Parchedig Huw George yn arwain.

12.00 Oedfa Radio Cymru

yng ngofal Maggie Ogunbanwo, Pen-y-groes.

DALIER SYLW:

Daeth cyfres Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr i ben ar 19 Gorffennaf, a'r Sul hwn bydd cyfres oedfaon DCDC hefyd yn dirwyn i ben.

OND . . .

bydd oedfaon digidol ar eich cyfer bob bore Sul drwy fis Awst wedi eu trefnu ar y cyd gyda Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

Cofiwch hefyd . . .

- am y rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts am 12.30.
- fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul: www.cristnogaeth21.cymru

PARHAU AR GAU AM Y TRO

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod hawl i gynnal oedfaon cynulleidfaol mewn addoldai o ganol mis Gorffennaf ymlaen. Yn dilyn y cyhoeddiad, derbyniodd yr eglwys ganllawiau gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ynghyd ag asesiad risg fyddai'n ofynnol i ni ei ddilyn os am ail-agor. Roedd llythyr yr Undeb yn datgan mai penderfyniad i Ymddiriedolwyr yr eglwysi unigol oedd agor ai peidio, ond pwysleisiwyd fod angen rhoi'r prif flaenoriaeth i ddiogelwch yr aelodau a'r gymuned leol wrth drafod y mater. Mewn cyfarfod 'rhithiol' o Fwrdd y Cyfarwyddwyr a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf, barn mwyafrif clir yr aelodau oedd i beidio ag ail-agor drysau'r Tabernacl cyn bod llacio pellach ar yr amodau caeth a osodir. Deallwn mai dyma farn y mwyafrif o gapeli Cymru hefyd, yn y gobaith y medrwn ddychwelyd ym mis Medi os bydd nifer yr achosion o'r Covid-19 yn parhau i ostwng.

PRIODAS DDIEMWNT



Llongyfarchiadau i Eirian ac Ann Rees, sy'n dathlu trigain mlynedd o briodas ddydd Iau nesaf. Priodwyd hwy ar 30 Gorffennaf 1960 yng Nghapel Bethany, Rhydaman, a threuliwyd y mis mêl yn Ilfracombe. Er gwaethaf llawenydd y diwrnod, atgofion chwerw-felys sydd gan y ddau am yr achlysur gan i Eirian gollu ei fam yn 48 oed ychydig wythnosau'n gynharach.

Eleni, a ninnau yng nghanol cyfyngiadau'r Coronafirws, nid yw'r teulu'n gallu cynnal dathliad teilwng – ond, o adnabod Teulu'r Tabernacl, mae'n siŵr y bydd yr aelodau'n sicrhau na fydd y diwrnod yn mynd yn angof!

Pob dymuniad da i chi, Eirian ac Ann, a chofion cynnes iawn ar ran holl aelodau a chyfeillion y Tabernacl.

Capel y Tabernacl Cyf.

RHEOLWR SAFLE

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach cysylltwch ag un o'r canlynol:
Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk/ 01443 206833
Gwilym Huws gehpengwern@yahoo.co.uk/ 01443 225205

WIL BRYAN A COVID-19

‘. . . mae Tabernacl Duw yn *tent* go fawr, wyddost ti.’

Yn y rhifyn cyfredol o'r **Tyst** mae Euryn Ogwen Williams – sydd bellach yn byw yn Y Barri, ond a fagwyd yn Yr Wyddgrug – yn dychmygu beth fyddai cyngor Wil Bryan, un o gymeriadau mwyaf lliwgar a chofiadwy Daniel Owen, i'w gyfaill Rhys Lewis, Gweinidog Bethel, wrth i Rhys fentro meddwl am ail-agor drysau'r capel wedi'r cyfnod clo.

Dyma ragflas o'r cyngor dychmygol hwnnw:

'Mae pobol wedi dŵad yn ffans o Facebook, Zoom, e-mail a phethe felly, a dwyt ti ddim isio colli nene pan ddaw pawb yn ôl at ei gilydd for real. Mi fydd angen dipyn o'r ddau arnat ti. Dim rhywbeth i'r youngsters ydy'r digital yma, cofia; i gadw'r capel i fynd rhaid i bawb gadw in touch. Cofia, erbyn hyn mae gen ti ffrindiau dros y byd sydd in attendance ac mae gen ti ffrindiau ar dy stepen drws sydd well gynnon nhw fod mewn capel virtual. Paid â dechrau rhoi extra points i bobol am fynd i mewn i adeilad. Os ydy well gynnon nhw neud pethau Cristnogol a chadw in touch drwy'r social media, mae hwnna'n OK . . .

. . . Dyd y rituals ddim yn essential, a phaid â rhoi humbug i bobol 'u bod nhw. Y fact of the matter ydy bod ni wedi cyrraedd y junction ene. Wela i ddim point mewn mynd i'r capel a ddim canu a pawb mewn masks a dim handshake, ond ti ydy'r expert – bydd yn true to nature. Falle bod y Bod Mawr yn fed-up ac yn dweud 'All Change!' a tithau'n cael chance i wneud rhywbeth special. Peidiwch ag eistedd o gwmpas fel duffers yn meddwl bod chi'n well na phawb arall. Dim dithering na complacency. Byddwch yn relevant a paid â bod yn too late. Carpe diem, fel oedd y Romans yn ddeud.'

I ddarllen gweddill cyngor amserol Wil Bryan i Rhys, ac i ninnau hefyd, trowch i dudalen 7 o gylchgrawn *Y Tyst* 23 Gorffennaf (ar gael ar wefan yr Undeb: annibynwyr.org).

O.N. Os yw tafodiaith sir y Fflint yn peri anhawster i chi, mae croeso i chi gysylltu â golygyddion y Ddolen am gyfieithiad, to be sure!

PYTIAU O GYFARFOD Y BWRDD

- Cytunwyd i hysbysebu swydd y Rheolwr Safle yn ehangach o ddiwedd Awst os na lwyddir i benodi o blith aelodau Capel y Tabernacl;
- Penderfynwyd argraffu a dosbarthu copiâu o **Atodiad y Dathlu** ymhlith yr aelodau yn ystod Awst a Medi yn hytrach nag aros i ail-agor y capel;
- Cytunwyd i fanteisio ar y cyfnod clo i drin lloriau pren y Ganolfan;
- Cadarnhawyd ffioedd priodi yn y Tabernacl i'r rhai heb gysylltiad dilys gyda'r eglwys;
- Cadarnhawyd Adroddiad Blynnyddol 2019 yn barod i'w anfon i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.

DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd unwaith eto am eich cefnogaeth i Fanc Bwyd Taf Elái, a'ch haelioni dihybydd drwy gydol y trefniadau amgen yn ystod cyfyngiadau Covid-19. Bydd ail gyfraniad ariannol yn cael ei drosglwyddo cyn diwedd y mis, a'r £1,200 a gasglwyd y tro hwn yn gymorth sylweddol i Lol Delbridge a'r criw ym Methel Pontyclun yn eu hymdrechion i ddiwallu anghenion teuluoedd yr ardal. Bydd y casgliad yn weithredol nes bydd y capel yn ail-agor, a byddwn yn parhau i ddilyn y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif 03607499

Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Cofiwch wneud y siec yn daladwy i: **Capel y Tabernacl Cyf** gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái.

Anfoner at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd dros gyfnod y clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205.*

Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Diolch.